Atodiad 1

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Adroddiad Perfformiad Di-garbon Net 2023/24

## Tabl Cynnwys


1.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon - Cyffredinol ........ 2

2.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon - Adeiladau ........ 3

3.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon - Ysgolion ........ 4

4.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon - Fflyd ........ 5

5.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon – Goleuadau Stryd a Theledu Cylch Caeëdig ....... 6

6.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon - Teithio gan Staff ........ 6

7.0 Gweithio Gartref ........ 8

8.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon – Y Gadwyn Gyflenwi ........ 8

9.0 Defnydd Tir ........ 9



**This document is also available in English.**

## 1.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon - Cyffredinol


Mae’r siart isod yn manylu allyriadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy rhwng 2019/20 a 2023/24. Mae’r gweithgareddau allyrru carbon yn cynnwys:

- Y defnydd ynni a dŵr o adeiladau sy’n perthyn i ni ac rydym yn eu gosod a’u defnyddio i gyflawni gwasanaeth craidd y Cyngor;
- Defnyddio tanwydd yn fflyd cerbydau’r Cyngor;
- Staff yn defnyddio tanwydd wrth ddefnyddio eu ceir ar gyfer busnes;
- Defnyddio ynni o ganlyniad i oleuadau stryd a Theledu Cylch Caeëdig;
- Staff yn defnyddio ynni wrth gymudo i, ac o’u gweithle;
- Trin gwastraff o’n gweithredoedd ein hunain;
- Gwariant yn ein cadwyn gyflenwi.

Roedd cyfanswm allyriadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn 2023/24 yn 45,672 $tCO_2e$. Wrth ystyried y carbon sy’n cael ei storio drwy’r defnydd o dir, mae’r ffigwr wedi’i leihau i 45,212 $tCO_2e$.
Mae’r siart isod yn cynnig manylion o gynnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy tuag at allyriadau carbon sero net o 2019/20 i 2023/24 a beth fyddai allyriadau petawn wedi parhau gyda busnes fel arfer.





Ar ddiwedd 2023/24, roedd y Cyngor wedi lleihau eu hallyriadau carbon 19% (10,698 tunnell), o’i gymharu â’r flwyddyn sylfaen o 2019/20.
Fel y dangosir yn y siart isod, mae allyriadau yng nghategori'r gadwyn gyflenwi yn cyfrif am y rhan fwyaf o allyriadau’r Cyngor yn 2023/24 ar 62% (28,496 tunnell) o'r cyfanswm. Mae hyn yn cael ei ddilyn gan adeiladau ar 20% (9,275 tunnell) ac yna staff sy’n cymudo ar 7% (3,285 tunnell).





## 2.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon - Adeiladau

Mae'r siart isod yn rhoi manylion o gynnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy tuag at adeiladau allyriadau carbon sero net o 2019/20 i 2023/24 a beth fyddai allyriadau petawn wedi parhau gyda busnes fel arfer.




Ar ddiwedd 2023/24, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi lleihau allyriadau carbon o'i adeiladau o 18% (2,098 tunnell), o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen o 2019/20.
Mae ffactorau sy'n cyfrannu tuag at y gostyngiad o'r sylfaen yn cynnwys:

- Gwaith uwchraddio i 18 o geginau ysgol, gosod cyfarpar mwy effeithlon;
- Gosod paneli solar yng nghanolfan seibiant Bron y Nant a 6 ysgol;
- Cam 1 y prosiect datgarboneiddio yn Ysgol Bro Aled;
- Gostyngiad yng nghyfanswm yr adeiladau;
- Cefnogaeth barhaus ar gyfer gweithio o gartref.





O dan Raglen Her Hinsawdd cyfrifoldeb prosiect Ystadau Allyriadau Di-garbon Net yw lleihau allyriadau o adeiladau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
Amcanion prosiect Ystadau Allyriadau Di-garbon Net yw:

- Lleihau y nifer o adeiladau sy'n eiddo ac yn cael eu defnyddio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
- Datblygu a gweithredu strategaeth lleihau carbon yn benodol ar gyfer pob math o adeilad;
- Integreiddio elfennau di-garbon net i bolisïau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â dylunio adeiladau, adnewyddu, cynnal a chadw a rheoli ased;
- Gwella effeithlonrwydd ynni a thermol ein hystadau drwy osod mesurau effeithlonrwydd ynni.
- Datblygu/cefnogi achosion busnes ar gyfer gweithredu mesurau di-garbon.

## 3.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon - Ysgolion

Mae ysgolion cynradd ac uwchradd Sir Conwy yn gyfrannwr sylweddol at allyriadau carbon Conwy, gan gyfrif am tua 50% o allyriadau'r Cyngor o'r adeiladau maent yn eu meddiannu.
Mae defnydd ynni ysgolion ar gyfer 2023/24 wedi'i fanylu yn y siart isod, sydd fel a ganlyn:

- 51 ysgol gynradd sy'n cyfrif am 38% o gyfanswm yr allyriadau;
- 4 ysgol uwchradd sy'n cyfrif am 29% o gyfanswm yr allyriadau;
- 3 ysgol CAP sy'n cyfrif am 21% o gyfanswm yr allyriadau;
- 3 uned atgyfeirio disgyblion sy'n cyfrif am 3% o gyfanswm yr allyriadau;
- 1 ysgol arbennig sy'n cyfrif am 8% o gyfanswm yr allyriadau;
- 4 canolfan addysgol arall sy'n cyfrif am 3% o gyfanswm yr allyriadau.





Ar ddiwedd 2023/24, roedd ysgolion wedi lleihau eu hallyriadau carbon o 12% (624 tunnell), o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen o 2019/20.
Mae ymyraethau'n parhau, gyda'r nod o leihau allyriadau carbon yn ysgolion y Sir. Yn 2023/24, roedd hyn yn cynnwys:

- Gwaith uwchraddio i 18 o geginau ysgol, gosod cyfarpar mwy effeithlon;
- Cam 1 y prosiect datgarboneiddio yn Ysgol Bro Aled
- Gosod paneli solar yng 6 ysgolion: Ysgol Glanwydden; Ysgol Nant y Groes; Ysgol Ffordd Dyffryn; Ysgol Cynfran; Ysgol Porth y Felin a Ysgol Sant Joseff

### 4.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon - Fflyd

Mae'r siart isod yn rhoi manylion o gynnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy tuag at fflyd allyriadau carbon sero net o 2019/20 i 2023/24 a beth fyddai allyriadau petawn wedi parhau gyda busnes fel arfer.





Ar ddiwedd 2023/24, roedd y Cyngor wedi lleihau eu hallyriadau carbon 12% (378 tunnell), o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen 2019/20.

Mae gostyngiad yn allyriadau carbon fflyd y Cyngor o'r flwyddyn sylfaen yn ganlyniad o drawsnewid i ddewisiadau amgen carbon is, a cherbydau trydan yn benodol.
Ar hyn o bryd mae 17 cerbyd trydan yn weithredol yn y fflyd, mae hyn yn cynnwys 5 sy'n geir y Cyngor, 3 fan fach, 2 ysgubwr ffyrdd a 7 cerbyd casglu deunydd i'w ailgylchu, ac mae 9 pellach wedi cael eu harchebu. Mae isadeiledd gwefru ar waith ar 5 safle i gefnogi gweithrediad fflyd dim allyriadau carbon.
O dan Raglen Newid Hinsawdd cyfrifoldeb prosiect Fflyd Allyriadau Di-garbon Net yw lleihau allyriadau o fflyd CBSC.
Amcanion prosiect Fflyd Allyriadau Di-garbon Net yw:

- Proffilio fflyd CBSC i ddeall sut mae'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd a rhagweld y galw yn y dyfodol;
- Datblygu rhaglen i ddisodli'r holl fflyd gyda cherbydau allyriadau isel iawn (ULEV) erbyn 2030;
- Datblygu isadeiledd corfforol i gefnogi gweithrediad fflyd o gerbydau a pheiriannau mawr carbon isel;
- Archwilio dewisiadau fflyd carbon isel amgen, e.e. hydrogen, biomethan, hybrid.

## 5.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon – Goleuadau Stryd a Theledu Cylch Caeëdig


Mae'r siart isod yn rhoi manylion o gynnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy tuag at oleuadau stryd a Teledu Cylch Caeëdig allyriadau carbon sero net o 2019/20 i 2023/24 a beth fyddai allyriadau petawn wedi parhau gyda busnes fel arfer.




Ar ddiwedd 2023/24, roedd y Cyngor wedi lleihau ei allyriadau carbon o oleuadau stryd a Theledu Cylch Caeedig 51% (640 tunnell), o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen 2019/20.
Gellir priodoli'r gostyngiad mewn allyriadau carbon i'r rhaglen i ddisodli llusernau sydd wedi disodli oddeutu 96% o lusernau CBSC gyda LED sy'n fwy effeithlon.


## 6.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon - Teithio gan Staff

**Cymudo Staff:**
Mae'r siart isod yn rhoi manylion o gynnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy tuag at arferion cymudo staff allyriadau carbon sero net o 2019/20 i 2023/24 a beth fyddai allyriadau petawn wedi parhau gyda busnes fel arfer.




Ar ddiwedd 2023/24, roedd staff yn cymudo wedi lleihau eu hallyriadau carbon o 24% (1,056 tunnell), o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen o 2019/20.
Mae allyriadau carbon sy'n dod o staff yn cymudo wedi cynyddu ychydig ers gostyngiad yn 2020/21 yn ystod pandemig Covid-19. Mae'r cynnydd yn sgil dychwelyd i waith yn y swyddfa, serch hynny, mae allyriadau carbon yn parhau i fod yn is na'r lefelau cyn Covid wrth i staff weithio mewn modd hybrid.

**Teithio Busnes**
Mae'r siart isod yn rhoi manylion o gynnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy tuag at teithio busnes allyriadau carbon sero net o 2019/20 i 2023/24 a beth fyddai allyriadau petawn wedi parhau gyda busnes fel arfer.




Ar ddiwedd 2022/23, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi lleihau allyriadau carbon o deithio ar gyfer busnes o 37% (199 tunnell), o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen o 2019/20.
Mae allyriadau yn sgil teithio busnes wedi cynyddu'n gyson bob blwyddyn ers dychwelyd i weithio yn y swyddfa, a chyfarfodydd wyneb yn wyneb, yn dilyn pandemig Covid-19.


Serch hynny, mae’r allyriadau carbon yn parhau i fod o dan lefelau cyn Covid, gan fod staff yn gweithio mewn modd hybrid, ac mae cyfanswm o 606,373 yn llai o filltiroedd wedi’u hawlio ar gyfer teithio busnes yn 2023/24 o’i gymharu â’r flwyddyn sylfaen.

O dan y Rhaglen Her Hinsawdd cyfrifoldeb prosiect Allyriadau Teithio Staff Di-garbon Net yw lleihau allyriadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o deithio ar gyfer busnes a staff yn cymudo. Amcanion prosiect Allyriadau Di-garbon Net Staff yn Teithio yw:

- Datblygu Polisi Teithio Staff;
- Datblygu dull o nodi data cymudo staff yn rheolaidd;
- Datblygu’r isadeiledd corfforol i hwyluso llai o deithiau gan staff, dulliau teithio carbon isel a theithio llesol;
- Datblygu gweithdrefnau i hwyluso llai o deithiau busnes a chymudo;
- Sicrhau bod staff yn gyfarwydd â pholisïau a gweithdrefnau sy’n gysylltiedig â llai o deithio, dulliau teithio carbon isel a theithio llesol;
- Datblygu Cynllun Teithio Gweithle CBSC.


## 7.0 Gweithio Gartref

Roedd allyriadau o weithio gartref yn isel iawn yn y flwyddyn sylfaen, cyn y pandemig, ac ni chawsant eu mesur.
Y ystod 2023/24 roedd allyriadau o weithio gartref wedi lleihau o 30% (653 tunnell) o’i gymharu â’r flwyddyn sylfaen o 2019/20 wrth i staff ddychwelyd i weithio yn y swyddfa. Gwelir hyn yn y graff isod:




## 8.0 Perfformiad Cyfateb i Garbon – Y Gadwyn Gyflenwi

Mae’r siart isod yn rhoi manylion o gynnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy tuag at gadwyn gyflenwi allyriadau carbon sero net o 2019/20 i 2023/24 a beth fyddai allyriadau petawn wedi parhau gyda busnes fel arfer.




Mae'r gadwyn gyflenwi yn cyfrif am oddeutu 62% o gyfanswm allyriadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
Ar ddiwedd 2023/24, roedd yr allyriadau o wariant y gadwyn gyflenwi wedi lleihau 20% (7,161 tunnell), o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen o 2019/20.
Mae'r gostyngiad mewn allyriadau o'r flwyddyn sylfaen yn ganlyniad o ffactorau allyriadau a adolygwyd, a weithredwyd yn genedlaethol yn 2022.
O dan Raglen Her Hinsawdd cyfrifoldeb prosiect Cadwyn Gyflenwi Di-garbon Net yw lleihau allyriadau o gadwyn gyflenwi Cyngor.
Amcanion prosiect Cadwyn Gyfenwi Di-garbon yw:

- Gwella methodoleg data allyriadau'r gadwyn gyflenwi gan weithio gyda Sector Cyhoeddus Cymru gyfan;
- Integreiddio carbon sero net i bolisïau a gweithdrefnau caffael y Cyngor;
- Adolygu templedi caffael ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i integreiddio datgarboneiddio fel ffactor o brosesau caffael;
- Datblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu i gymell lleihau carbon ymysg cyflenwyr;

## 9.0 Defnydd Tir

Mae'r coetir a glaswelltir sy'n eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gweithredu fel sinc carbon. Amcangyfrifir bod y coetir a glaswelltir yn gyfrifol am ddal a storio 460 tunnell o allyriadau cyfateb i $CO_2$ yn flynyddol, sef tua 1% o gyfanswm allyriadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
Ar ddiwedd 2023/24, mae allyriadau sy'n cael eu storio a'u dal o dir wedi cynyddu o 1% (3 tunnell) â phan gymharwyd â'r flwyddyn sylfaen o 2019/20. Mae hyn oherwydd caffael glaswelltir ychwanegol yn Llanrhos.
O dan y Rhaglen Her Hinsawdd mae prosiect Gwrthbwyso Carbon yn gyfrifol am ddal a storio allyriadau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn rhannol drwy ddefnydd tir.
Amcanion prosiect Gwrthbwyso Carbon yw:

- Sefydlu effaith coed trefol ar allyriadau carbon Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
- Plannu coed ar draws 110 hectar o ystadau presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
- Ehangu plannu coed ar draws 225 hectar o ystadau presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
- Archwilio cyfleoedd ar gyfer gosodiadau adnewyddadwy ar draws ystadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ; fel ffermydd solar;
- Cynyddu nifer y gwrychoedd ar ystâd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.